# Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
**COFNODION CYFARFOD MISOL CHWEFROR 2021**

4 Chwefror 2021 7:00 yh drwy gyfrwng fideo

## 1. YMDDIHEURIADAU

Wynn Roberts, Peter Garlick

**Presennol:** Dafydd Iwan, Math Williams, Emyr Williams, Erddyn Davies, Huw Orwig, Gruff Williams, Dylan Morgan

**Cadeirio:** Geraint Strello

**Clerc:** Huw Llwyd Rowlands

## 2. TEYRNGED I'R DIWEDDAR MIRAIN LLWYD OWEN

Rhoddodd y Cynghorydd Geraint Strello deyrnged i'r Cynghorydd Mirain Llwyd Owen fu farw ym mis Ionawr. Cydnabuwyd ei bod wedi bod yn aelod ffyddlon a chydwybodol o Gyngor Cymuned Y Bontnewydd, ac fe gydymdeimlwyd â'i theulu. Byddai ei chyfeillgarwch yn cael ei golli.

## 3. DATGAN DIDDORDEB/BUDDIANT PERSONOL

Datganodd y Cynghorydd Dafydd Iwan diddordeb yn eitem 7.4, talu anfoneb Age Cymru am brydau bwyd.

## 4. CADARNHAU COFNODION 3 RHAGFYR 2020

Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 3 Rhagfyr 2020.

Cynnig: Huw Orwig
Eilio: Dafydd Iwan

## 5. MATERION SEFYDLOG

### 5.1 Adroddiad gan y Cynghorydd Peter Garlick

Gan nad oedd y Cynghorydd Peter Garlick yn bresennol, ni chafwyd adroddiad ganddo.

Mynegodd y Cynghorydd Dafydd Iwan fod ganddo amrywiol faterion lleol i'w trafod, a gwneith eu cyfeirio at y Cynghorydd Peter Garlick

Mynegodd y Cynghorydd Geraint Strello y byddai'n gofyn i'r Cynghorydd Peter Garlick i godi cyflwr y ffordd ger safle Watkin Jones ym Montnewydd.

**5.2 Y Ganolfan, Bontnewydd**

**Adroddiad trysorydd pwyllgor y Ganolfan 3 Chwefror 2021**

Rhoddion gan aelodau o'r gymuned a gasglwyd gan Peter Garlick ym mis Ionawr: £480

Arian yn y banc: £1896
Arian mewn llaw: £0
Dyled i'r cwmni nwy: £53
Credid gan y cwmni trydan: £72
Incwm disgwyliedig y mis yma: £465
Gwariant disgwyliedig y mis yma: £550

Yn codi o gofnodion cyfarfod Rhagfyr: Toiledau genod (mae dau o'r tri thoiled wedi cau/blocio tair gwaith ers iddynt gael eu hail-osod pan adnewyddwyd y toiledau; ac angen pobl llnau draeniau proffesiynol i'w hagor). Yn ôl GEWS doedd dim awgrym o gamddefnydd y ddwy waith gwnaethant lanhau'r pibau (doedd dim deunyddiau na ddylid eu gwaredu lawr y toiled); does dim nam na diffyg yn y pibau dŵr budr serameg; ac felly tybiant mai achos y blocio yw sut y mae'r ddau doiled wedi eu cysylltu i'w gilydd â phibau flexi plastig, ac yna i'r biben serameg.

Cytunwyd i gael barn arall am broblem y toiledau.

Cynnal a chadw: swîts trydan wedi torri yn y cyntedd; a'r gofalwr wedi trefnu trydanwr i'w newid.

Cais grant i adnewyddu'r ystafell ymgynnull: mae datganiad o ddiddordeb, cyfrifon a ffeil o luniau wedi eu hanfon a'u derbyn gan adran berthnasol Llywodraeth Cymru. Bydd angen ariannu cyfatebol ond does dim angen inni gyfrannu cymaint â 50%, a tebyg y bydd £20 mil yn ddigon (tua 15%). Rydym wedi cadw grant Covid gwerth £10 mil gan Lywodraeth Cymru at y pwrpas; a gobeithiwn hefyd roi o'r neilltu'r rhoddion diweddar gan aelodau o'r gymuned a'r rhoddion rydym yn gobeithio derbyn yn y misoedd nesaf. Rydym felly yn gofyn am addewid gan y Cyngor Cymuned o nawdd hyd at £10 mil fel ariannu cyfatebol.

Gofynnodd y Cynghorydd Math Williams i'r Cyngor cymuned warantu hyd at £10,000 fel cyfraniad tuag at y cais grant i adnewyddu'r ystafell ymgynnull,, yn Y Ganolfan.

Rai blynyddoedd yn ôl cytunwyd i dalu grant blynyddol penodol i'r Ganolfan, ond yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r cyngor cymuned wedi bod yn ariannu'r Ganolfan yn ôl y galw, ar gyfer gwariant cyfalaf penodol, e.e. gwresogyddion, system larwm tân. Gwnaethpwyd y newid yma oherwydd roedd teimlad fod rhoi grant blynyddol yn awtomatig yn dueddol o olygu fod y swm yn cael ei wario heb atebolrwydd

Cytunwyd i warantu hyd at £10,000 tuag at y cais grant i adnewyddu'r stafell ymgynnull, ond byddai unrhyw symiau eraill yn ddibynnol ar sefyllfa ariannol y Cyngor cymuned.

**Cynnig:** Dafydd Iwan

**Eilio:** Gruff Williams

## 6. MATERION YN CODI O'R COFNODION

### 6.1 Lês Cae Stanley

Mae'r cyfreithwyr angen cynllun manwl er mwyn drafftio'r lês.

Cafwyd trafodaeth hefyd a ddylai'r holl gae fod yn rhan o'r lês, yn hytrach na gwahanu'r cae yn ddau ran, yn enwedig gan mai'r Clwb Pêl-droed sydd yn edrych ar ôl y ddau gae ar hyn o bryd.

Ystyriwyd hefyd pwy ddylai fod yn gyfrifol am yswirio'r cae yn ystod tymor y lês, a bydd angen trafod hynny wrth i'r lês gael ei ddrafftio.

Penderfynwyd gofyn i'r Clwb Pêl-droed a oeddynt am lês ar y cae i gyd neu ddim ond rhan ohono erbyn cyfarfod mis Mawrth.

Cytunwyd fod y Clwb yn talu costau cyfreithiol y les. Mae Pritchard Jones Lane, Cyfreithwyr, wedi cytuno gwneud y gwaith am bris gostyngol

### 6.2 Cynllun Arafu Traffig Llanfaglan

Bu i Gyngor Gwynedd ymgynghori ar gynllun i arafu traffig yn Llanfaglan cyn y Nadolig.  Prif ran y cynllun fydd gosod twmpathau i arafu traffig.

### 6.3 Ffordd Castellmai at Blas Glanrafon

Cafwyd ateb gan adran dramwy Cyngor Gwynedd.  Byddai'n costio dros £100,000 i wynebu'r ffordd i safon priffordd.

Yr opsiwn arall ydy gwneud gwaith i safon is, ond fyddai hynny ddim yn ateb cynaliadwy nac yn ddefnydd da o arian cyhoeddus..

Yn ogystal, statws cilffordd gyfyngedig sydd i'r ffordd, sydd yn rhoi hawl gyhoeddus i gerddwyr, beicwyr, marchogwyr dramwyo ar ei hyd.

Serch hynny, cydnebir fod y ffordd yn rhan bwysig o Lôn Gwyrfai, ac felly mi fydd Cyngor Gwynedd yn ceisio gweld os oes ffynhonellau eraill ar gael i ariannu gwelliannau.

### 6.4 Cwt Eglwys Sant Baglan

Mae Cyngor Gwynedd wedi ymateb drwy ddweud nad yw'r cwt na'r porth allanol yn eiddo i Gyngor Gwynedd, dim ond y wal a'r fynwent ei hun.  Maent o'r farn fod y cwt a'r porth fel yr Eglwys ei hun yn perthyn i Gyfeillion Eglwysi Digyfaill.

Gofynnwyd i'r Clerc weld os oedd yna gofnodion oedd yn egluro'r sefyllfa pan gredir i ddrws newydd gael ei osod ar gwt Eglwys Sant Baglan tua 2012, ac os oedd gan y cyngor cymuned unrhyw gyfrifoldeb i fod yn atebol i ddiogelu'r adeilad.

## 7. MATERION ARIANNOL

### 7.1 Cyflog a Chostau Clerc Rhagfyr 2020

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE** £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros** £279.00 y mis
**Cyfanswm Net** £232.20 y mis

**7.2  Cyflog a Chostau Clerc Ionawr 2021**

£234.00 - £46.80 treth incwm = £187.20 + costau swyddfa £45.00

**Cyflog** £232.20 y mis
**TWE**    £46.80 y mis

**Cyfanswm Gros**  £279.00 y mis
**Cyfanswm Net**     £232.20 y mis

**7.3  Anfoneb Archwilio Mewnol Cyngor Gwynedd 2019/20 £192.00**

**7.4  Anfoneb Age Cymru prydau bwyd**

27-11-20 86x£3.50 £301
04-12-20 86x£3.50 £301
11-12-20 86x£3.50 £301
18-12-20 86x£3.50 £301

**Cyfanswm £1204.00**

**7.5  Anfoneb Wyn Williams, rhif 2029 glanhau cysgodfanau Hydref 2020 i Ionawr 2021 £213.00**

**7.6  Balans yn y banc 31 Ionawr 2021 £29,163.49**

**8.  CYNLLUNIO A MATERION CYFREITHIOL ERAILL**

Cais Cynllunio Badenoch, Glan Beuno, Bontnewydd.  Cais i wneud newidiadau ac estyniadau a gosod ffenestri cromen yn y to.

Dim gwrthwynebiad.

**9.  GOHEBIAETH**

- **Papur Cyflogaeth Twristiaeth Cymru, Cylch yr Iaith**

  Derbyniwyd papur Cyflogaeth Twristiaeth Cymru, Cylch yr Iaith er gwybodaeth.

- **Llythyr gan Gyngor Tref Nefyn yn gofyn am gefnogaeth i ddanfon llythyr at Lywodraeth Cymru yn nodi pryder am sefyllfa ail gartrefi yng Ngwynedd.**

  Cytunwyd i ddanfon llythyr at Lywodraeth Cymru.

## 10. MATERION ERAILL

### 10.1 Cyfethol Aelod

Y cam cyntaf fydd gofyn i Gyngor Gwynedd lunio templed yn rhoi cyfle i etholwyr ofyn am etholiad os ydynt eisiau. Os na fydd gofyniad am etholiad, gellir mynd ymlaen i gyfethol aelod.

### 10.2 Cymeradwyo Asesiad Risg 2021/22

Adolygwyd yr Asesiad Risg, a gwnaethpwyd sylw fod angen ystyried diogelwch dogfennau. Gofynnwyd i'r Clerc ymchwilio i'r ffordd orau o gadw a diogelu dogfennau.

### 10.3 Camfa Tan y Graig, Llanfaglan

Nid yw Cyngor Gwynedd wedi adnewyddu'r gamfa yn Nhan y Graig, Llanfaglan, er gwaethaf addewid y byddent yn cysylltu efo perchennog y tir er mwyn trafod newidiadau a gosod giât.

Mae yna gamfa arall hefyd ar dir Tan y Graig sydd hefyd mewn cyflwr gwael, ac mae angen gofyn i Gyngor Gwynedd roi sylw i hon hefyd.

**Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf – 4 Mawrth 2021, 7:00 yr hwyr**